**Cyngor Cymuned Dolbenmaen**

**Crynodeb o gofnodion y cyfarfod misol**

**Dyddiad:**

2il o Dachwedd, 2023

**Presennol**

John Jones (Cadeirydd), Iddon Edwards, Jess Williams, (Penmorfa), Edward Evans (Bryncir), Huw Pritchard, Raymond Jones (Pentrefelin), Megan Lloyd Williams (Golan), Clifford Williams, Michael Jones, Enid Egginton (Garndolbenmaen), Richard Williams, Gwilym Evans (Prenteg)

**Ymddiheuriadau**

Sarah Jones (Pentrefelin), Richard Parry (Bryncir), John Till (Golan), Stephen Churchman a June Jones (Cyngor Sir Gwynedd)

**Datgan Buddiant**

Neb

**Penderfyniadau**

Bwlch y Moch, Prenteg:

Rhannwyd cofnodion y cyfarfod hefo'r Cynghorwyr Cymuned i gyd. Adroddodd y Clerc ei bod wedi cael sgwrs gydag Andrew Gregson yn ddiweddarach yn y dydd. Dywedodd ei fod wedi ymweld â'r safle dydd Gwener ddiwethaf (27/10/23) ac nad oedd prin neb yno bryd hynny ond, dywedodd o'r lluniau anfonwyd ato nad yw'r parcio yn cael effaith ar y llif traffig ac felly does dim all o wneud yn anffodus. Mae yn gweld bod yna elfen ddiogelwch ond yn anffodus nid yw'r canllawiau gan y Llywodraeth yn rhoi'r hyblygrwydd iddynt fel Cyngor i allu newid cyfyngiadau cyflymder. Dywedodd bod yna ganllawiau newydd allan mis Hydref nesaf ac y gall hyn newid. Soniodd mai'r unig beth all o wneud i geisio helpu'r sefyllfa ar hyn o bryd gan nad oes unrhyw oblygiadau cyfreithiol yw rhoi ysgrifen "Araf/Slow" ar y ffordd yn y ddau gyfeiriad a hefyd rhoi arwydd i fyny yn dweud "lleiniau meddal" i geisio atal dringwyr rhag parcio ar yr ymylon. Penderfynwyd derbyn y cynlluniau yma. Clerc i gysylltu yn ôl hefo Andrew.

Cyffordd Glandwyfach:

Adroddwyd pryder am ddiogelwch y gyffordd yng Nglandwyfach. Clerc i gysylltu hefo'r Adran Gefnffyrdd i drefnu cyfarfod safle.

Llwybr o Ynys Cynhaearn i Lan y Môr: Adroddwyd bod y llwybr yma angen sylw. Ar hyn o bryd, nid yw'n glir bod llwybr cyhoeddus yn bodoli. Clerc i drefnu cyfarfod safle gyda'r Swyddog Llwybrau Cyhoeddus,

Rhoddion Ariannol:

Penderfynwyd rhoi hysbyseb yn Y Wylan a'r Ffynnon i hysbysebu'r ffaith bod posib gwneud cais am rodd ariannol gan y Cyngor Cymuned. Dyddiad Cau: 31ain Rhagfyr 2023.

Cynllunio:

**NP2/16/T413J:** Beudy Mawr, Erw Suran, Cwm Ystradllyn. LL51 9BQ. Adeiladu storfa/sied unllawr i ochr tŷ. *Dim gwrthwynebiad dim ond iddo aros i fod yn storfa/sied.*

**NP2/16/79Y:** Parc Carafanau Aberdunant, Prenteg, LL49 9SR. Creu parc solar arfaethedig ar hen dir gwastraff chwarel. *Dim gwrthwynebiad.*